

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWIYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 27ain Mawrth, 2017**

### **PRESENNOL**

Cyng Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyng Hefin Martin, Cyng Arwel Ll. Jones, Cyng Dewi Wynne Jones, Cyng John Owen, Cyng Mike Rayner, Cyng Alun Morris, Cyng Austin Roberts Delyth Algeri (clerc).

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng Dewi Arfon Jones, Cyng Eifion Williams

### **Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 30ain o Ionawr, 2017

### **Materion yn codi o'r cofnodion**

#### **CAE CHWARAE MAENAN**

Nododd Cyng John Owen a Cyng Mike Rayner eu bod am wneud trefniadau i osod canllaw yng Nghae Chwarae Maenan pan fydd y tywydd yn caniatáu.

#### **MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Cyng John Owen ei fod wedi edrych ar y ffens o amgylch y maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan, mi fydd yn gosod ambell i bolyn i gryfhau'r ffens pan fydd tywydd yn caniatáu.

### **CYNNAL A CHADW MIS RHAGFYR**

1. Angen glanhau'r ffordd ar yr allt rhwng 'Larkstoke Cottage' a Recotry Llanddoged.  
**Y gwaith glanhau'r ffordd wedi ei gwblhau wythnos diwethaf.**
2. Concrit wedi dod yn rhydd yn y ffos ar allt Penllan, Llanddoged.  
**Bydd yr Adran Amgylchedd a Ffyrdd yn cynnal atgyweiriadau yn ystod y gwanwyn ar allt Penllan, Llanddoged.**
3. Achos o dipio anghyfreithlon rhwng Wigfa a Rhiw Dafnau, Maenan.  
**Symudwyd yr eitemau a gafodd eu tipio yn anghyfreithlon ar 02.02.2017.**
4. Angen ysgubo'r dail ar allt Penrhwylyfa, Maenan y ffordd yn llithrig.  
**Loriau ysgubo wedi bod yn ysgubo'r dail wythnos ddiwethaf.**
5. Cloddiau yn tyfu allan i'r ffordd ar ffordd Trwyn Swch, Llanddoged wrth Gae Cetyn, Llanddoged- loriau yn bachu yn y cloddiau.  
**Bydd yr Adran Priffyrdd yr anfon llythyr at berchennog y tir ynglŷn â'r gwrych sydd wedi gordyfu ar ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.**

### **GOSOD CAMFA NEWYDD AR LWYBR RHIF 5 WRTH TYN Y CELYN, MAENAN**

Cyng Hefin Martin wedi derbyn galwad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda neges eu bod am osod y gamfa ar lwybr cyhoeddus rhif 5 mis nesaf.

### **Ffurflenni Etholiadau**

Dosbarthwyd y ffurflenni etholiadau i'r Cynghorwyr ac atgoffwyd fod angen ei gwblhau cyn Ebrill y 4ydd, 2017.

## **CYNLLUNIO**

- Cynllunio - Cais rhif 0/43757 – SP Energy Networks – Codi llinell uwchben 11kw – Dolgarrog, Maenan, Llanrwst.

Ar ôl trafodaeth pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma.

## **Y GYLLIDEB**

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb am y flwyddyn 2016/17 yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen Banc fel arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

## **CYFRIFON Y CYNGOR AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD YN DIWEDDU 30AIN MAWRTH 2017**

Pasiwyd i anfon y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn sydd yn diweddau 30ain Mawrth 2017 i Mr John Arthur Jones Archwilydd Mewnol.

## **CAIS RHODD ARIANNOL**

Derbyniwyd llythyr am gais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst.

Pasiwyd i anfon £25 o rodd ariannol tuag at yr Eisteddfod.

## **GOHEBIAETH**

1. DBO – Ffurflenni Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddau 30ain Mawrth, 2017.
2. Un Llais Cymru – Cais am dal aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

## **CYNNAL A CHADW**

1. Angen atgyweirio wal y Bont Garth, Maenan.
2. Tyllau yn y ffordd rhwng Groesffordd a throeau Pen y Bryn, Llanddaged.
3. Cais gan berchennog 1 Maes Gwyn, Llanddaged gael cadarnhad pwy sydd yn berchen y ffens wrth yr arhosfa bus ym Mhentref Llanddaged.  
Cyng Austin Roberts am gael gair gydag Adran Eiddo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.